COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM 26.03.2022

PRESENNOL – Gwyn Davies (Cadeirydd) Gwyndaf Jones, Carwyn Edwards, Llyr Jones, Gwynfryn Jones, Awel Hughes, Sioned Jones, Rhian Ellis (Clerc) Cyng. Peter Lewis

1. YMDDIHEURIADAU – Glenydd Evans

2. DATGAN BUDDIANNAU – Carwyn yn datgan diddordeb yn mwynt 4 o'r taliadau.

3. COFNODION 24.11.21 - Cywiro ym mhwynt 2 o'r gofnodion – Awel wedi datgan diddordeb yn yr adran Cynllunio. Cynigwyd y cofnodion yn gywir gyda'r newidiadau gan Llyr Jones ac eilwyd gan Carwyn Edwards.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION –

5. CYLLIDEB - Yn y Banc 28.02.2022 £23,323.67

Wedi derbyn £54. VAT yn ol am y flwyddyn.

6. TALIADAU - Cynigwyd talu yr isod gan Gwyndaf ac eilwyd gan Awel a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| Rhian Ellis Cyflog | s150 | £1500.00 |
| Rhian Ellis Costau | s150 | £ 111.16 |
| Rhydian Morris | s137 | £ 420.00 |
| Carwyn Edwards(Goleuadau) | s137 | £ 24.97 |

7. NEUADD FACH - .

Carwyn mewn cyslltiad gyda Scottish Power ynglyn a darlleniad meter.

Angen clirio yr adeilad yn ystod yr haf.

8.CAEAU CHWARAE - Dinmael – Cynllun ar waith. Y Pwyllgor angen amcanbris er mwyn cael gwneud penderfyniad ynglyn a faint y byddant yn ei gyfranu.

Llangwm –Dim Adborth.

9. CYNLLUNIO –Plas Nant - dim gwrthwynebiad.

10. GOHEBIAETH –

Llythyr gan Ymddriedolaeth Addysg Cerrig y Drudion yn gofyn am gyfraniad I'r Gronfa – Y Cynghorwyr angen mwy o wybodaeth.

11. UNRHYW FATER ARALL –

1. Fynwent yr Eglwys – Llyr yn datgan bod angen cael giat newydd yn fynwent yr Eglwys a bod hefyd angen atgyweirio y waliau cerrig – Penderfynwyd gofyn am bris gan Ian Evans Dinmael am y gwaith.

2. Y clerc yn dal I drio cysylltu gyda Esgob Llanelwy I holi am safleoedd y beddi yn mynwent yr Eglwys.

3. Adroddiad Cyng. Peter Lewis – Dywedodd y Cynghorydd bod treth y cyngor yn codi 3.5% yng Nghonwy.

Dyweddodd hefyd mai dyma ei bwyllgor olaf iddo fel Cynghorydd yn y Cyngor Cymuned oherwydd fod ei dymor wedi dod I ben a nad oedd am sefyll eto yn yr electiwn nesa.

Arian Melin Wynt Nant Bach – Awgrymwyd y dylai arian sydd yn dod fewn I'r ardal gan y cwmni melin wynt gael Pwyllgor i'w redeg arwahan I'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd am ei adael o fewn rheolaeth y Pwyllgor ond bod y Clerc I gadw cyfrif o faint sydd yn cael ei wario yn y gymuned.

4. Pwyllgor y Neuadd – Dywedodd Gwynfryn bod Pwyllgor y neuadd yn agos iawn I arwyddo.

5. Nododd Sioned bod 2 Garafan static yn Gaer Gerrig I'r adeiladwyr, a bod yna rai yn sgramblo o gwmpas y lle yn creu swn difrifol. – y Clerc I edrych I fewn.

Diolchodd y Cadeirydd I'r Cynghorydd Peter Lewis am ei waith a hefyd ei gefnogaeth ar hyd y blynyddoedd a dymuno yn dda iddo I'r dyfodol.

Yr un modd I Gwyndaf Jones am ei flynyddoedd o gefnogaeth I'r Cyngor yn Llangwm ac am ei barodrwydd I helpu bob amser gan ddymuno yn dda iddo hefyd.

DYDDIAD CYFARFOD NESA.

Mai 25ain 7 o'r gloch